***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 101

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008

**Hysbysiad o ddyddiad cychwyn gwaith**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 2(6) o Atodlen 3A i Ddeddf 1991 a pharagraffau (3), (6) a (7) isod, at ddibenion adran 55, rhaid i ymgymerwr sy'n bwriadu dechrau gwneud gwaith stryd o gategori a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl rhoi cyfnod o hysbysiad o ran y categori hwnnw o ddim llai na'r hyn a ddangosir yng ngholofn 2.

**Tabl**

| *(1)* *Categori o waith* | *(2)* *Y cyfnod* |
|---|---|
| Gwaith pwysig | 10 diwrnod |
| Gwaith safonol | 10 diwrnod |
| Mân weithiau | 3 diwrnod |

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 6(2) a pharagraffau (6) a (7) isod, at ddibenion adran 55, pan fo ymgymerwr yn bwriadu gwneud gwaith brys mewn unrhyw stryd, rhaid iddo roi hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn dwy awr o fod wedi dechrau ar y gwaith.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7), pan fo ymgymerwr

(a) wedi cael hysbysiad o dan adran 58(1) yn cyfyngu ar waith stryd yn y dyfodol yn sgil gwaith stryd sylweddol;

(b) yn bwriadu dechrau gwneud

(i) gwaith stryd, ac eithrio gwaith disymwth, cyn i'r cyfyngiad ddod i rym; neu

(ii) gwaith stryd, ac eithrio gwaith a ganiateir o dan adran 58(5), sy'n golygu darnio rhan o'r briffordd y bydd y cyfyngiad yn gymwys iddo, neu dwnelu neu dyllu oddi tani, tra bo'r cyfyngiad yn weithredol; ac

(c) nad yw eisoes wedi rhoi hysbysiad o ran y gwaith hwnnw yn unol â pharagraff (1),

rhaid iddo, at ddibenion adran 55, roi hysbysiad o'r hyn y bwriada ei wneud ddim mwy na 20 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o dan adran 58(1).

(4) At ddibenion adran 55(7), y cyfnod a ragnodir yw —

(a) 5 niwrnod pan fo'r hysbysiad yn ymwneud â gwaith pwysig neu waith safonol; a

(b) 2 ddiwrnod pan fo'n ymwneud â mân weithiau.

(5) At ddibenion adran 55(8), y cyfnod a ragnodir yw 2 ddiwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad pan fydd yr hysbysiad yn peidio â bod yn effeithiol.

(6) Nid oes angen rhoi hysbysiad o dan adran 55(1) pan fo ymgymerwr yn bwriadu dechrau gwneud gwaith stryd

(a) mewn stryd nad yw'n stryd sy'n sensitif i draffig;

(b) ar droetffordd stryd sy'n sensitif i draffig ar adeg sy'n sensitif i draffig; neu

(c) mewn stryd sy'n sensitif i draffig, ar adeg nad yw'n sensitif i draffig,

os nad yw'r gwaith yn golygu darnio'r stryd neu dwnelu neu dyllu oddi tani.

(7) Nid yw'n ofynnol i ymgymerwr statudol roi hysbysiad o dan adran 55(1) i unrhyw berson y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo oni bai bod y cyfryw berson wedi gofyn am hysbysiad o'r fath.

(8) Mae is-baragraff (7) yn gymwys i —

(a) unrhyw ymgymerwr statudol sydd ag offer yn y stryd y mae'r gwaith yn debygol o effeithio arno; a

(b) unrhyw berson y byddai ganddo fel arall hawl i gael hysbysiad o'r fath yn rhinwedd fod ganddo yn y stryd ran o bibell wasanaeth yn gorwedd rhwng ffin y stryd a'r stopfalf ar y cyfryw bibell yn y stryd honno neu fod ganddo draen yn y stryd honno.

(9) Ym mharagraff (8) mae i "draen", "pibell wasanaeth " a "stopfalf" yr un ystyr ag sydd i "*drain*", "*service pipe*" a "*stopcock*" yn Neddf y Diwydiant Dwr 1991(**1**).

(**1**) 1991 p.56. Cafodd y diffiniad o "service pipe" yn adran 219(1) ei ddiwygio gan adran 92(6) o Ddeddf Dŵr 2003 (p.37). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.